# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 17 Ebrill 2013

Amser y cyfarfod: 13.00

## (124)v3

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Gweld y cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

(45 munud)

Gweld y cwestiynau

## 4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru

(60 munud)

**NDM5206 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Ionawr 2013.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ebrill 2013.

**Dogfennau ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5205 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol yn Lloegr rewi'r dreth gyngor am y drydedd flwyddyn yn olynol.

2. Yn nodi ymhellach bod Llywodraeth yr Alban wedi sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol yn yr Alban rewi'r dreth gyngor ar gyfer 2013/2014; a bod y rhewi hwnnw wedi bod ar waith ers 2008/2009.

3. Yn credu bod rheidrwydd moesol ar awdurdodau lleol i wario arian cyhoeddus gyda gofal a doethineb; gan sicrhau bod cyfraddau'r dreth gyngor mor isel â phosibl i breswylwyr.

4. Yn gresynu at wrthodiad parhaus Llywodraeth Cymru i ddefnyddio cyllid canlyniadol i gynorthwyo awdurdodau lleol i rewi'r dreth gyngor ledled Cymru; gan roi cymunedau o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr a'r Alban.

5. Yn gresynu ymhellach bod biliau'r dreth gyngor yng Nghymru wedi cynyddu 148 y cant ers 1997/1998, ac yn credu bod cynnydd andwyol o'r fath wedi rhoi pwysau diangen ar aelwydydd sydd o dan bwysau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn credu mai awdurdodau lleol ddylai benderfynu ar lefelau gwariant awdurdodau lleol a'r dreth gyngor, fel rhan o agenda lleoliaeth gynhwysfawr.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad yw'r dreth gyngor yn system drethiant gynyddol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio a allai pwerau newydd sydd wedi'u cynnig gan Gomisiwn Silk ei galluogi i ddatblygu system drethiant decach i gyllido gwariant awdurdodau lleol.

## 6 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM5202 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) adolygu'r rheolau caffael mewn llywodraeth leol i'w gwneud yn haws i gwmnïau a busnesau lleol gynnig am waith a gwasanaethau a darparu cyrsiau hyfforddi i swyddogion caffael mewn awdurdodau lleol;

b) gweithio gydag awdurdodau lleol i ddenu cyfleoedd cyflogaeth newydd a sicrhau cymaint o gyflogaeth leol â phosibl pan fydd prosiectau seilwaith mawr ar y gweill; ac

c) darparu rhagor o adnoddau i awdurdodau lleol gynnal a chadw eu rhwydwaith ffyrdd mewn cyflwr da.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt a) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

‘amlinellu ei ymrwymiad i gefnogi busnesau lleol i gynnig am gontractau llywodraeth leol;’

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd is-bwynt b):

‘gan sicrhau bod y sector preifat lleol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, yn cymryd rhan lawn yn y broses hon’

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru**)

Dileu 'ffyrdd’ yn is-bwynt c) a rhoi ‘trafnidiaeth’ yn ei le

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd is-bwynt c):

‘a sicrhau bod ei phrosiectau rhwydwaith ffyrdd ei hun yn dangos yr arfer gorau i awdurdodau lleol, gan osgoi gorwario diangen a sicrhau gwerth am arian’

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘cyflwyno deddfwriaeth i ddatblygu economïau lleol drwy roi pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol adfywio canol trefi, ysgogi creu swyddi yn lleol a chaniatáu i awdurdodau lleol gadw rhywfaint o’r arian a ddaw o ardrethi busnes er mwyn ysgogi twf economaidd.’

## 7 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

(60 munud)

**NDM5204 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod y system gyllido ar gyfer gofal hirdymor yn y DU wedi bod yn annigonol, yn annheg ac yn anghynaliadwy yn rhy hir ac yn croesawu cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer ei diwygio.

2. Yn cydnabod na fu erioed cymaint o frys o ran yr angen i sicrhau system gynaliadwy i dalu am ofal yng Nghymru, gan nodi gyda phryder:

a) y bydd angen rhywfaint o ofal a chymorth ar dros wyth o bob deg o bobl 65 oed neu hŷn yn ddiweddarach yn eu bywydau ac y rhagamcanir y bydd nifer y bobl yng Nghymru sy'n 65 oed a hŷn wedi dyblu erbyn 2035;

b) yr amcangyfrifir bod dros 17,000 o bobl â dementia yng Nghymru ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu 31% dros yr 20 mlynedd nesaf;

c) bod un o bob tri o bobl, yn ôl ymchwil ar ddefnyddwyr gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain, yn credu bod ‘gofal i’w gael am ddim fel y mae’r GIG’ ac nad oes diben cynllunio ar gyfer costau gofal hirdymor yn y dyfodol;

d) y bydd un o bob deg o deuluoedd yn wynebu costau gofal o £100,000 neu fwy yn ystod eu hoes, fel yr amlygwyd gan Gomisiwn Dilnot.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu’r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i system newydd o gyllido gofal yng Nghymru a chadarnhau'r cyllid canlyniadol Barnett a fydd yn deillio o'r cyhoeddiad ar gyllido gofal cymdeithasol yn Adolygiad o Wariant 2013.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio argymhellion Comisiwn Dilnot fel sail ar gyfer diwygio cyllid gofal cymdeithasol yng Nghymru ar frys, gan gynnwys:

a) sicrhau bod pobl wedi'u diogelu rhag costau uchel eu gofal cymdeithasol;

b) cyflwyno cynllun â chost wedi'i chapio ac ymestyn trothwy'r profion modd;

c) ymestyn y cynllun taliadau gohiriedig i bob un y mae'n ofynnol iddo dalu am ofal preswyl;

d) cyflwyno Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol i wella cysondeb y cymorth;

e) sicrhau bod y rhai a ddaw’n oedolion ac sydd ag angen gofal a chymorth eisoes yn gymwys i gael cymorth am ddim gan y wladwriaeth i ddiwallu eu hanghenion gofal;

f) gwella argaeledd a hygyrchedd gwybodaeth a chymorth i bobl ddeall eu hopsiynau a pharatoi a chynllunio am gostau gofal.

Gellir gweld argymhellion Comisiwn Dilnot drwy fynd i:

http://www.ilis.co.uk/uploaded_files/dilnott_report_the_future_of_funding_social_care_july_2011.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

'Yn cydnabod methiant Llywodraethau dilynol y Cynulliad o ran darparu cymorth teg a fforddiadwy i bobl agored i niwed ag anghenion gofal cymdeithasol.'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl 'yn rhy hir'.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Sefydlu atebion interim tecach i ffioedd gofal cymdeithasol, sy'n adlewyrchu anghenion Cymru, o fewn yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.

b) Sicrhau bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gwneud darpariaeth ariannol ddigonol ar gyfer cynnal teuluoedd a gofalwyr anffurfiol eraill yn y tymor hir.

c) Sicrhau bod modd cyllido gofal cymdeithasol yn gynaliadwy, ac yn credu y byddai sefydlu fformiwla cyllido gyda Llywodraeth y DU sy'n adlewyrchu

anghenion Cymru yn helpu i ddarparu'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni hyn.'

Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i'w weld drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5664

## Cyfnod pleidleisio

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5203 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

'Why not Dilnot?' Talu am ofal cymdeithasol i'r henoed yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 23 Ebrill 2013